



DOGFEN YMGYNGHORI STATUDOL



12.03.18 - 23.04.18

Cynnwys

Adran	Disgrifiad	Rhif y dudalen
	Rhagair	3
1 1.1 1.2	Cyflwyniad Y cynnig mae'r ymgynghoriad statudol hwn yn ei drafod Dewisiadau posibl ar gyfer yr ymgynghoriad	4 4 4
2 2.1 2.2 2.3 2.4	Ymgynghori Ymgynghori Cyfarfodydd Ymgynghori gyda disgyblion Sylwadau: cyfeiriad cysylltu a dyddiad cau	5 5 6 6 6
3 3.1 3.2 3.3 3.4 3.5	Gwybodaeth Gefndir Gwybodaeth ysgol Dosbarthiadau Adnodd Dysgu Rhagolygon disgyblion a capacity Lle Darpariaeth ADY	7 7 8 9 10 11
4 4.1 4.2 4.3 4.4 4.5 4.6 4.7	Y Cynnig Y sefyllfa bresennol: cynnal y cydbwysedd Dewisiadau arfaethedig Llety/lleoliadau newydd Trefniadau cludiant Staffio Aseiad Effaith Cydraddoldeb Manteision ac anfanteision	12 12 12 13 13 13 14 14
5	Esboniad o'r Broses Statudol	15

Atodiad 1 – Ffurflen Ymateb

Rhagair

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymateb i gais gan bennaeth a chorff llywodraethol Ysgol Sŵn y Don i ystyried a ellir symud un neu'r ddau ddsbarth adnodd anghenion dysgu ychwanegol y Sir o'u lleoliad presennol yn yr ysgol. Mae hyn mewn ymateb i'r cynnydd yn y nifer o ddisgyblion sydd yn yr ysgol fel cyfanrwydd a'r pwysau mae hyn yn ei roi am le yn yr adeilad.

Yn eu cyfarfod ar **19 Rhagfyr 2017**, penderfynodd **Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** i gynnal ymgynghoriad statudol ar adleoli posibl un neu'r ddau ddsbarth adnodd anghenion dysgu ychwanegol, yn unol ag **Adran 2.2 'Newidiadau Rheoledig'** Cod Trefniadaeth Ysgol, 2013.

Bydd yr ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal rhwng **12 Mawrth 2018** a **1.00 p.m. 23 Ebrill 2018**, ac mae'n seiliedig ar y cynnig i symud un neu'r ddau ddsbarth adnodd anghenion ychwanegol i leoliad arall yn y dalgylch neu i ardal gyfagos.

Hoffai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gael cyfle i gyflwyno eich syniadau ynghylch y cynnig fel y gall y rhain gael eu hystyried cyn gwneud penderfyniad. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori byddwn yn cyflwyno adroddiad i Gabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Mae'r ymgynghoriad statudol hwn yn anelu at wasanaethu pob cymuned yn ac o amgylch dalgylch Ysgol Sŵn y Don, ac yn bennaf y disgyblion hynny sy'n mynychu'r ddsbarth adnodd yn bresennol a'u teuluoedd.

Mae copi o'r ddogfen hon, a phapurau cefndir eraill, ar gael ar wefan y Cyngor www.conwy.gov.uk/ymgyngoriadauaddysg

SYLWER – dylid anfon unrhyw sylwadau ar y ddogfen ymgynghori statudol hon at Wasanaethau Addysg erbyn 1:00 p.m. ar 23 Ebrill 2018. Gweler y manylion cysylltu perthnasol yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Edrychwn ymlaen at gael eich barn.

Yn gywir



Dr Lowri Brown

Pennaeth Gwasanaethau Addysg

Cyflwyniad

Yng Ngorffennaf 2017, gwnaeth corff llywodraethol a phennaeth Ysgol Sŵn y Don gais i ddod â chartrefu dosbarthiadau adnodd anghenion addysgol arbennig Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn yr ysgol i ben oherwydd eu pryder ynghylch y nifer cynyddol o ddisgyblion a'u hamgyffred o'r posibilrwydd y bydd cynnydd pellach mewn niferoedd dros y blynyddoedd i ddod. Roeddent yn dweud bod y nifer cynyddol o ddisgyblion yn yr ysgol yn rhoi pwysau am le yn yr adeilad, yn arbennig wrth drefnu gwahanol grwpiau blynyddoedd a dosbarthiadau.

Mae Ysgol Sŵn y Don, (Ysgol Babanod Penmaenrhos ac Ysgol Iau Tan y Marian yn flaenorol) yn cartrefu dau ddosbarth adnodd, un ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen (4-7 oed), a'r llall ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 (7-11 oed).

Lluniwyd adnoddau dysgu'r Awdurdod i gefnogi ac ychwanegu at addysg prif ffrwd disgyblion gydag anghenion dysgu a nodwyd, ac mae eu hanawsterau'n effeithio'n arwyddocaol ar eu cynnydd academaidd. Mae dosbarthiadau adnodd dysgu yn cynnig cyfle i addysgu mewn grŵp bychan a gor-ddysgu sgiliau sylfaenol, gan gynnwys iaith, llythrennedd a rhifedd. Pwrpas yr adnodd dysgu yw cynnig cyfleoedd dysgu dwys ychwanegol er mwyn cefnogi disgyblion wrth ddychwelyd at y cwricwlwm prif ffrwd llawn amser.

Mae'r Awdurdod yn ariannu saith dosbarth adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2 yng Nghonwy ac un adnodd Cyfnod Sylfaen. Nid oes gan yr Awdurdod fwriad i leihau'r gefnogaeth hon, felly mae'r cynnig yn ymwneud yn unig ag adleoli un neu'r ddau ddosbarth adnodd.

1.1 Y cynnig mae'r ymgynghoriad statudol hwn yn ei drafod

Bod un neu'r ddau ddosbarth adnodd dysgu sydd wedi'u lleoli'n Ysgol Sŵn y Don yn cael eu hadleoli i ysgol/ysgolion eraill yn yr un dalgylch neu ddalgylch cyfagos, (h.y. dalgylch ysgolion Bryn Elian, Eirias neu Emrys ap Iwan).

1.2 Dewisiadau posibl ar gyfer ymgynghori

Mae'r Awdurdod yn gyntaf yn cynnig ceisio lleoliad mewn ysgol gynradd arall yn nalgylch Bryn Elian, ac os na cheir llwyddiant, yn nalgylch ysgolion Eirias ac Emrys ap Iwan. Y dewis a ddymunir ar y cam hwn yw symud yr adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2 i Ysgol Cystennin, Mochdre. Fodd bynnag, ymgynghorir ar bob posibilrwydd arall.

Gallai hyn olygu bod y ddau adnodd yn symud i safle newydd ar yr un safle (fel yn bresennol); y ddau adnodd yn symud i ddwy ysgol; neu un dosbarth adnodd yn symud i leoliad newydd tra bo'r llall yn aros yn Ysgol Sŵn y Don.

Ymgynghori

Cynhelir yr ymgynghoriad rhwng **12 Mawrth** a **23 Ebrill 2018**.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyfeirio'n unig at adleoli un neu'r ddau ddsbarth adnodd anghenion dysgu sydd wedi'u lleoli'n bresennol yn Ysgol Sŵn y Don. Felly ni ddylai ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ond roi sylwadau ar y cynnig a nodwyd ym mharagraff 1.1. uchod.

2.1 Ymgynghori

Bydd y ddogfen ymgynghori hon yn cael ei hanfon, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgol Llywodraeth Cymru at y canlynol yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol:

Anghenion Cod Trefniadaeth Ysgol 006/2013	Dosbarthwyd i:
Yr awdurdod cynnal neu'r awdurdod cynnal arfaethedig ar gyfer unrhyw ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio gan y cynnig.	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n cyflwyno'r cynnig
Unrhyw awdurdod lleol arall sy'n debygol o gael ei effeithio – gan gynnwys yn achos darpariaeth AAA pwrpasol, unrhyw awdurdod sy'n lleoli neu'n debygol o leoli disgyblion gyda datganiad ynddo.	Cyngor Sir Ddinbych
Awdurdodau Addysg yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig sydd yn yr ardal ble mae'r ysgol sy'n debyg o gael ei heffeithio wedi'i lleoli.	Yr Eglwys yng Nghymru – Esgobaeth Lanelwy Esgobaeth Gatholig Wrecsam
Unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio gan y cynnig.	amherthnasol
Corff llywodraethol unrhyw ysgol sy'n amodol i'r cynnig ac unrhyw ysgolion sy'n debyg o gael eu heffeithio gan y cynnig.	Cyrff llywodraethol holl ysgolion cynradd Conwy
Rhieni (a darpar rieni ble bo hynny'n bosibl) gofalywyr a gwarcheidwaid.	Rhieni, gofalywyr a gwarcheidwaid plant sy'n mynychu'r ddau ddsbarth adnodd dysgu.
Gweinidog Cymru	Kirsty Williams (AC).
Aelodau'r Cynulliad a Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal.	Michelle Brown (AC), Janet-Finch Saunders (AC), Llŷr Huws (AC), Mark Isherwood (AC), Mandy Jones (AC), Darren Millar (AC) Guto Bebb (AS), David Jones (AS)
Estyn	Anne Keane – Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Cymru
Undebau athrawon a staff addysgu a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n amodol i'r cynnig.	Undebau
Consortiwm Addysg Rhanbarthol	Arwyn Thomas – Prif Swyddog GwE Anwen Williams – Cydlynnydd Consortiwm Addysg Rhanbarthol Gogledd Cymru
Consortiwm Cludiant Rhanbarthol	Taith – Consortiwm Cludiant Rhanbarthol Gogledd Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throsedd	Arfon Jones - Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru
Unrhyw gyngor tref neu gymunedol yn y cylch mae'r ysgol yn ei gwasanaethu sy'n amodol i'r cynnig.	Cyngor Tref Abergele, Cyngor Tref Bae Colwyn, Cyngor Cymuned Llanddulas a Rhyd y Foel, Cyngor Cymuned Llaysiaen, Cyngor Cymuned Mochdre, Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel
Partneriaeth Leol Cymunedau'n Gyntaf	Marianne Jackson, Pennaeth Gwasanaeth Datblygiad Cymunedol
Cyrff iechyd perthnasol sydd â diddordeb.	Dr Hamilton Grantham - Paediatregydd Cymunedol Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Arall	Yr holl staff anghenion dysgu ychwanegol Holl benaethiaid Conwy

Bydd y ddogfen ymgynghori hon yn cael ei chyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: www.conwy.gov.uk/ymgyngoriadauaddysg

2.2 Cyfarfodydd

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd swyddogion ADY Conwy yn cynnal sesiynau galw heibio i drafod y cynigion gydag athrawon, staff atodol, rhieni a gofalwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

Grŵp	Dyddiad	Amser	Lleoliad
Rhieni, gofalwyr ac aelodau'r cyhoedd	22.03.18	14.00 - 15.00	Ysgol Sŵn y Don
Staff yr ysgol	22.03.18	15.00 – 16.30	Ysgol Sŵn y Don
Rhieni, gofalwyr ac aelodau'r cyhoedd	12.04.18	14.00 – 15.00	Ysgol Cystennin
Staff yr ysgol	12.04.18	15.00 – 16.30	Ysgol Cystennin

Pe bai lleoliad(au) pellach yn cael eu canfod ar gyfer un neu'r ddau ddsbarth adnodd dysgu yn ystod yr ymgynghoriad, bydd dyddiadau ychwanegol yn cael eu cyhoeddi gyda sesiynau galw heibio a chyfarfodydd pellach gyda chorff llywodraethol yr ysgol(ion) posibl.

Bydd sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol yn cael eu hystyried gan y Cabinet cyn y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch y camau nesaf ac unrhyw symudiadau posibl. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn penderfynu parhau gyda'r cynnig neu beidio, ac a ddylid cyhoeddi hysbysiad statudol ynghylch y cynnig.

2.3 Ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc

Bydd trefniadau'n cael eu gwneud i gael barn y disgyblion sy'n mynychu'r ddau ddsbarth adnodd, a'r disgyblion sy'n mynychu dosbarthiadau prif ffrwd Ysgol Sŵn y Don. Bydd sesiwn ddynodedig yn cael ei gynnal gyda disgyblion Ysgol Sŵn y Don.

Pe bai lleoliad(au) amgen posibl yn cael eu canfod ar gyfer un neu'r ddau adnodd dysgu ar ôl yr ymgynghoriad hwn, bydd sesiynau ychwanegol yn cael eu trefnu i ddarparu gwybodaeth a thrafod gyda'r disgyblion sy'n mynychu'r dosbarthiadau adnodd.

2.4 Sylwadau: cyfeiriadau cysylltu a dyddiad cau

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad trwy lenwi'r ffurflen ymateb ar ddiwedd y ddogfen hon. Dylid cyfeirio pob ymateb at:

E-bost: addysg@conwy.gov.uk

Post: Gwasanaethau Addysg

Adeiladau'r Llywodraeth

Ffordd Dinerth

Llandrillo yn Rhos

LL28 4UL

SYLWER – Rhaid i bob ymateb, boed trwy'r post neu e-bost, gyrraedd Gwasanaethau Addysg erbyn **13:00, 23 Ebrill fan bellaf**.

3. Gwybodaeth Gefndir

3.1 Gwybodaeth Ysgol

Ysgol gymunedol yw Ysgol Sŵn y Don i ddisgyblion 3 - 11 oed ac mae wedi'i lleoli ar gyrion Hen Golwyn ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Ffurfiwyd yr ysgol ym Medi 2015 pan gyfunwyd Ysgol Iau Tan y Marian ac Ysgol Babanod Penmaenrhos, ac mae wedi'i lleoli ar safle'r gyn ysgol iau ers Medi 2016 pan orffennwyd y gwaith adeiladu i ymestyn yr adeilad blaenorol.

Pan oedd yr adroddiad hwn yn cael ei ysgrifennu, roedd 131 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, gyda 119 ohonynt o oed ysgol statudol. Mae'r nifer wedi cynyddu ers Medi 2013 ac mae'r manylion fel a ganlyn:

Y Flwyddyn Academaidd	Gwir nifer y disgyblion (Data PLASC Medi)
2013/2014	88
2014/2015	89
2015/2016	88
2016/2017	99

Mae gan yr ysgol gyfanswm o chwe prif ddosbarth a dau ddosbarth llai ar gyfer y ddau ddosbarth adnodd dysgu. Mae'r dosbarthiadau fel a ganlyn yn bresennol:

- 1) Meithrin a Derbyn (26 disgybl: 12 *meithrin* a 14 *derbyn*)
- 2) Blwyddyn 1 (19 disgybl)
- 3) Blwyddyn 2 (26 disgybl)
- 4) Blwyddyn 3 a 4 (28 disgybl: 10 Blwyddyn 3 a 18 Blwyddyn 4)
- 5) Blwyddyn 5 (21 disgybl)
- 6) Blwyddyn 6 (11 disgybl)
- 7) Grŵp chwarae/dosbarth adnodd dysgu Cyfnod Sylfaen (12 disgybl)

8) Dosbarth adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2 (12 disgybl)

“Mae gan tua 70% o blant hawl i brydau ysgol am ddim. Mae hyn ymhell uwch law'r cyfartaledd cenedlaethol (19%). Mae gan tua 42% o'r plant anghenion dysgu ychwanegol, sydd ymhell uwch law'r cyfartaledd cenedlaethol, ac mae gan rai ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae ychydig ddisgyblion yng ngofal yr awdurdod lleol. Mae bron yr oll o'r disgyblion o darddiad ethnig gwyn Prydeinig ac yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Nid oes yr un disgybl sy'n siarad Cymraeg gartref”, (Adroddiad Estyn, Ionawr 2017).

Mae rhagamcanion blynyddol disgyblion am y pum mlynedd nesaf, (heb gynnwys y cynnydd posibl a gysylltwyd â chodi tai ar safle cyfagos Tŷ Mawr), fel a ganlyn:

Blwyddyn Academaidd	Rhagolygon Nifer y Disgyblion
2018/2019	120
2019/2020	114
2020/2021	110
2021/2022	113
2022/2023	101

Y nifer o blant a ragamcanwyd a allai symud i'r ardal o ganlyniad i godi tai ar safle Tŷ Mawr, pe bai'n cael ei ganiatáu, yw 50 o blant oed ysgol gynradd a 41 o blant oed ysgol uwchradd.

Yn ychwanegol at y pwysau a achoswyd gan y cynnydd yn y nifer o ddisgyblion yn y flwyddyn academaidd hon, ar ôl yr arolwg a gafwyd yn Ionawr 2017, fe ystyriodd Estyn bod perfformiad yr ysgol a'i gobeithion o wella yn 'Anfoddhaol'. O ganlyniad i hyn, roedd yn cael ei gydnabod bod angen rhoi'r ysgol mewn camau arbennig, ac mae Estyn yn parhau i fonitro'r ysgol yn dymhorol.

Teimla corff llywodraethol Ysgol Sŵn y Don eu bod yn gallu trin holl argymhellion arolwg diweddar Estyn yn well trwy wahanu grwpiau blwyddyn, yn arbennig yng Nghyfnod Allweddol 2. Gan gymryd hyn i ystyriaeth a'r cynnydd yn nifer y disgyblion, byddai hyn yn golygu defnyddio o leiaf un o'r dosbarthiadau llai sy'n cael eu defnyddio'n bresennol fel dosbarth adnodd dysgu'r Awdurdod Lleol.

3.2 Dosbarthiadau Adnodd Dysgu

Mae'r ddau ddosbarth adnodd dysgu sydd wedi'u lleoli'n bresennol yn Ysgol Sŵn y Don fel rhan o gontinwmm o ddarpariaeth i ddisgyblion gydag anghenion addysgol dysgu ychwanegol yng Nghonwy. Mae pob disgybl sy'n mynychu'r dosbarthiadau adnodd dysgu yn parhau i gael ei gofrestru yn ei ysgol gartref, gyda'r nod ei fod yn ail integreiddio i'w ysgol gartref os a phryd y bydd yn barod. Mae ysgolion cartref y disgyblion hyn yn cael eu hannog i gadw mewn cysylltiad clos gyda'r disgyblion a'u teuluoedd, a sicrhau bod disgyblion yn cael eu gwahodd yn ôl i'w hysgol gartref pan fo digwyddiadau ac achlysuron arwyddocaol.

Mae pob lleoliad mewn dosbarth adnodd dysgu'n cael ei gytuno gan y panel cymedroli anghenion dysgu ychwanegol aml asiantaeth yn ôl set o feini prawf mynediad a gytunwyd.

Mae'r dosbarth adnodd dysgu Cyfnod Sylfaen yn lleoliad llawn amser fel bod teithio a newid yn ystod y dydd yn cael ei gadw i'r lleiafswm i ddisgyblion iau. Mae cludiant tacsï yn cael ei ddarparu i Ysgol Sŵn y Don o ac i gyfeiriad cartref y disgybl bob bore a phnawn ar ddiwedd y diwrnod ysgol.

Y dosbarth adnodd dysgu cyfnod sylfaen yw'r unig ddosbarth sylfaen a luniwyd yn benodol ar gyfer disgyblion gydag anawsterau dysgu cymedrol i ddwys yng Nghonwy. Mae'n darparu ar gyfer uchafswm o 12 disgybl ac mae ar gael ar gyfer disgyblion 4 - 7 oed o unrhyw ysgol yng Nghonwy.

Mae naw disgybl yn bresennol yn mynychu'r anodd dysgu Cyfnod Sylfaen. Mae dau ddisgybl wedi'u cofrestru yn Ysgol Sŵn y Don fel eu hysgol gartref, gydag un yn byw o fewn ac un y tu allan i ddalgylch yr ysgol. Mae'r saith disgybl arall wedi'u cofrestru mewn saith ysgol arall yng Nghonwy

Mae saith dosbarth adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2 yng Nghonwy, ac wedi'u lleoli'n bresennol yn Ysgol Bro Gwydir, Ysgol Porth y Felin, Ysgol Tudno, Ysgol Pencae, Ysgol Awel y Mynydd, Ysgol Maes Owen ac Ysgol Sŵn y Don. Lleoliadau rhan amser yw'r dosbarthiadau adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2, gyda'r disgyblion yn dychwelyd i'w hysgolion prif ffrwd yn y pnawn. Mae athrawon a staff cefnogi yn cefnogi disgyblion a staff yn eu hysgolion prif ffrwd yn ystod sesiynau'r pnawn. Mae disgyblion yn cael eu cludo mewn tacsï o'u cyfeiriad cartref i Ysgol Sŵn y Don bob bore ac yn ôl i'w hysgol gartref erbyn amser cinio.

Lleolwyd dosbarthiadau adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2 mewn ymdrech i sicrhau bod darpariaeth ar gael mor lleol ag sy'n bosibl. Gyda hyn mewn cof, cynigir bod y dosbarth adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2 yn cael ei symud i safle sydd mor agos ag sy'n bosibl i'r safle presennol.

Mae 11 o ddisgyblion yn bresennol yn mynychu'r dosbarth adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2 yn Ysgol Sŵn y Don. Mae wyth o'r disgyblion wedi'u cofrestru yn yr ysgol; dau ddisgybl yn byw yn nalgylch yr ysgol a chwech o ddisgyblion o du allan i ddalgylch yr ysgol.

3.3 Rhagolygon disgyblion a chapasiti

Fel y nodwyd uchod, mae 133 o ddisgyblion yn bresennol yn yr ysgol, gyda'r rhagolygon am y pum mlynedd nesaf, (heb gynnwys y cynnydd posibl a gysylltwyd â chodi tai ar safle cyfagos Tŷ Mawr), fel a ganlyn:

Blwyddyn Academaidd	Rhagolygon Nifer y Disgyblion
2018/2019	120

2019/2020	114
2020/2021	110
2021/2022	113
2022/2023	101

Y nifer o blant a ragamcanwyd a allai symud i'r ardal o ganlyniad i godi tai ar safle Tŷ Mawr yw 50 o blant oed ysgol gynradd a 41 o blant oed ysgol uwchradd.

Ar ôl gorffen y gwaith adeiladu i gyfuno'r ddwy ysgol, mae lle i 149 o ddisgyblion; fodd bynnag mae pryderon y corff llywodraethol a'r pennaeth yn ymwneud â nifer y dosbarthiadau a sut y gellir eu defnyddio'n effeithiol i gartrefu'r holl ddisbarthiadau prif ffrwd ac adnodd dysgu presennol, yn arbennig mewn ymateb i argymhellion Estyn, gwella safonau a chanlyniadau i bob disgybl, (gan gynnwys y rhai sy'n mynychu'r dosbarthiadau adnoddau dysgu), hyrwyddo ymgynnwys a blaenoriaethu lles.


Mae'r corff llywodraethol a'r pennaeth yn pryderu ynghylch gallu'r ysgol i ddarparu addysg a chyfleoedd dysgu o ansawdd da yn y cyd-destun presennol heb y gallu i fod â grwpiau blwyddyn unigol, yn arbennig ym mhen uchaf Cyfnod Allweddol 2, a theimlant na all ymgysylltiad, perfformiad a chanlyniadau i ddisgyblion ond cael eu gwella trwy edrych ar le ffisegol a chyflunio grwpiau dosbarth er mwyn hwyluso gweithredu eu cynllun gweithredu ac argymhellion Estyn.

Mae'r pryder ynghylch canlyniadau a chynnydd yn effeithio ar y disgyblion yn nosbarth adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2, yn arbennig mewn perthynas â chyfleoedd ymgynnwys llwyddiannus ac ystyrlon o fewn amgylchedd dysgu tawel a chadarnhaol sydd wedi'i sefydlu mewn dosbarthiadau prif ffrwd.

Cynigir bod y cynnig i symud unrhyw ddisbarth adnodd dysgu yn cymryd i ystyriaeth athroniaeth a gweledigaeth yr ysgol newydd, ac ymrwymiad y corff llywodraethol a'r pennaeth i hyrwyddo ymgynnwys a'r gefnogaeth o ansawdd uchel ac effeithiol i ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai'n amlwg yn blaenoriaethu caffaelrwydd gofod dosbarth priodol a fyddai'n galluogi'r dosbarth adnodd dysgu fod a'i ofod wedi'i amddiffyn ei hun, ond gydag ymdeimlad o fod yn rhan o'r gymdeithas ysgol ehangach.

3.4 Lle

Fel y disgrifiwyd uchod, mae gan Ysgol Sŵn y Don chwe prif ddisbarth, gyda dwy ystafell lai a gynlluniwyd yn wreiddiol i gartrefu dau ddisbarth adnodd dysgu. Mae'r rhain yn bresennol wedi'u trefnu fel a ganlyn:



Ni ddylai dosbarthiadau ADY A003 a A030 gael eu cymryd i ystyriaeth at bwrpas maint.

Mae A053 yn cyfeirio at yr uned feithrin, h.y. plant nad ydynt o oed ysgol gorfodol.

Hoffai'r ysgol gyflunio'r dosbarthiadau fel a ganlyn ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018/2019 er mwyn canolbwyntio ar gyflwyno'r canlyniadau gorau i'r holl ddisgyblion:

Dosbarth 0: Meithrin a Grŵp Chwarae (nifer y disgyblion yn anhysbys)

Dosbarth 1: Derbyn a Dosbarth 1 (26 disgybl)

Dosbarth 2: Blwyddyn 2 (19 disgybl)

Dosbarth 3: Blwyddyn 3 (24 disgybl)

Dosbarth 4: Blwyddyn 5 (18 disgybl)

Dosbarth 5: Blwyddyn 6 (21 disgybl)

Dosbarth Bach 1: Dosbarth 4 (11 disgybl)

Dosbarth Bach 2: angen ymgynghori

3.5 Darpariaeth ADY

Cynigir y bydd adleoli un neu'r ddau ddosbarth adnodd dysgu o bosibl, yn galluogi canolbwyntio ar ddatblygu addysgu a phrofiadau dysgu o ansawdd uchel i bob disgybl, a bydd yn cynnig cyfle i wella ar, a gwella darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Sŵn y Don a darpariaeth adnodd dysgu'r Awdurdod Lleol.

Pe bai'r ddau ddsbarth adnodd dysgu yn aros ar safle'r ysgol, byddai trafferthion yn parhau gyda chydlynw grwpiau dosbarth a dosbarthiadau yn ddigonol, gyda'r posibilrwydd o'r dosbarth adnodd dysgu yn cael ei orfodi i rannu lle gyda grwpiau blwyddyn/grŵp chwarae eraill. Nid yw hon yn sefyllfa ddelfrydol ac mae'n codi pryderon ynghylch ansawdd darpariaeth ADY a chyfleoedd addysgu a dysgu i bob disgybl sydd yn yr ysgol.

4. Y Cynnig

4.1 Y Sefyllfa bresennol: cynnal y cydbwysedd

Mae'r sefyllfa bresennol yn ymwneud â lleoliad y ddau ddsbarth adnodd dysgu Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 sydd ar safle Ysgol Sŵn y Don. Mae'r cyfuniad o niferoedd y disgyblion yn cynyddu ac anhawster y corff llywodraethol a staff yr ysgol yn ymateb i argymhellion i wella cyfleoedd addysgu a dysgu, wedi arwain at y cais i ymgynghori ynghylch adleoli un neu'r ddau ddsbarth adnodd dysgu.

Mae'r corff llywodraethol, y pennaeth a'r pennaeth gweithredol wedi mynegi eu pryderon wrth yr Awdurdod Lleol a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghylch yr heriau maent yn eu profi wrth gydlynw dosbarthiadau yn y modd mwyaf effeithiol a chadarnhaol gyda'r bwriad o wella lles, canlyniadau academaidd a chymdeithasol i holl ddisgyblion yr ysgol, gan gynnwys y rhai yn y dosbarthiadau adnodd dysgu.

Mae'r Awdurdod Lleol yn dymuno cynnal y lefel bresennol o ddarpariaeth fel rhan o gontinwwm y Sir o gefnogaeth ADY, ac mae'n ymroddedig i drin yr holl bryderon a phroblemau a all effeithio ar effeithioldeb y ddarpariaeth.

4.2 Dewisiadau arfaethedig

Y posibilrwydd o symud dosbarth adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2 i Ysgol Iau Cystennin yw'r dewis a ddymunir ar y cam ymgynghori hwn. Mae'r ysgol Categori 5 hon wedi'i lleoli ym Mochdre, 3.7 milltir i ffwrdd oddi wrth Ysgol Sŵn y Don. Cafodd yr ysgol ei ffederaleiddio'n ddiweddar gydag Ysgol Babanod Mochdre, ond mae'n parhau ar ei safle ar wahân ei hun ac yn darparu ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn unig. Mae gan yr ysgol ddsbarth o faint digonol ble maent yn credu y gallai dosbarth adnodd dysgu gael ei leoli.

Mae'r pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr yn gefnogol i ymgynghoriad pellach ar y cynnig ac yn cydnabod y gwerth y gallai'r adnodd dysgu ei ddarparu i'r ysgol.

Mae gan yr adeilad ble mae Ysgol Cystennin wedi'i leoli lle i 82 o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2. Fodd bynnag, mae ystafelloedd ychwanegol a allai gael eu trosi'n ddsbarthiadau gan gynyddu'r maint. Mae rhagolygon nifer y disgyblion dros y pum mlynedd nesaf fel a ganlyn:

Y Flwyddyn Academaidd 2018-19	Nifer y disgyblion a ragwelwyd 76
----------------------------------	--------------------------------------

2019-20	85
2020-21	89
2021-22	79
2011-23	76

Yn ychwanegol at Ysgol Cystennin, cynigir bod unrhyw leoliadau amgen sy'n cael eu hawgrymu yn ystod y cyfnod ymgynghori mor agos at Ysgol Sŵn y Don ag sy'n bosibl. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth adnodd dysgu yn parhau i fod mor gyfleus i ysgolion y sir, gan gadw'r pellter teithio i'r holl ddisgyblion i'r lleiafswm a chynyddu'r cyfleoedd i integreiddio ac ymgynnwys o fewn eu hardal. Hefyd, gan fod y ddau ddosbarth adnodd dysgu wedi'u lleoli'n bresennol yn Ysgol Sŵn y Don yn adnoddau cyfrwng y Saesneg, byddai angen iddynt fod wedi'u lleoli mewn ysgol gynradd Categori 4/5.

4.3 Llety/lleoliad newydd

Yn ychwanegol at Ysgol Cystennin, pan fo'n angenrheidiol / yn briodol cysylltu ac ymgynghori ar/gyda lleoliadau (ysgolion) amgen posibl eraill fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, ac archwilio a gwirio nodweddion hanfodol. Er enghraifft:

- mynediad digonol
- llety priodol
- cyfleoedd ar gyfer ymgynnwys o fewn gwersi prif ffrwd priodol
- ymrwymiad sydd wedi'i sefydlu gan yr ysgol tuag at ADY ac ymgynnwys.

Roedd yr ystafell arfaethedig yn Ysgol Cystennin yn ystafell cyfrifiaduron yn flaenorol, a themlir ei bod yn cydymffurfio â'r holl nodweddion uchod.

4.4 Trefniadau cludiant

Ni fydd tefniadau cludiant yn newid, gyda'r holl ddisgyblion yn cael eu cludo gyda thacsi i'r dosbarth adnodd dysgu. Y cynnig yw bod unrhyw leoliad newydd yn ddigon agos at Ysgol Sŵn y Don fel bod unrhyw amser cludiant yn cael ei gadw i'r lleiafswm.

Nid yw Ysgol Cystennin ond 3.7 milltir oddi wrth Ysgol Sŵn y Don, ac mae'n nes neu o'r un pellter i gyfeiriad cartref nifer o ddisgyblion sy'n defnyddio'r adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2 yn bresennol

4.5 Staffio

Bydd swyddogion addysg yn cyfarfod athrawon a staff cefnogi'r ddau ddosbarth adnodd dysgu ar 22.03.18 i ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig. Bydd cyfarfodydd ffurfiol pellach gyda staff a chynrychiolwyr undebau yn cael eu trefnu os ac fel bo'r angen.

4.6 Aseiad Effaith Cydraddoldeb

Bydd Aseiad Effaith Cydraddoldeb ac Aseiad Effaith Cymunedol llawn yn cael eu cynnal fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol. Bydd yr aseiad llawn yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad ymgynghori a fydd yn dilyn y cyfnod ymgynghori hwn.

4.7 Manteision ac anfanteision

Bydd ymgynghori ar adleoli arfaethedig un neu'r ddau ddsbarth adnodd sydd wedi'u lleoli yn Ysgol Sŵn y Don yn sicrhau bod canlyniadau derbynol yn cael eu cyrraedd sy'n hyrwyddo gwerthoedd a gweledigaeth y Cyngor i'r holl ddisgyblion a'u teuluoedd yng Nghonwy, yn arbennig y rhai sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Cynigir bod cynnal y ddau ddsbarth adnodd yn yr ysgol bresennol yn risg yn nhermau sicrhau bod cyfleoedd addysgu a dysgu o'r safon uchaf i ddisgyblion a'r ysgol ehangach. Mae angen sicrhau bod safonau addysgol a lles disgyblion yn cael y flaenoriaeth uchaf. Wrth ystyried y cynnydd posibl yn nifer y disgyblion ynghyd â'r codi tai arfaethedig yn yr ardal, mae'n hanfodol bod lle i ddisgyblion yn cael ei drin ymlaen llaw yn hytrach ar ôl y cynnydd mewn niferoedd.

Mae manteision adleoli un neu'r ddau ddsbarth adnoddu yn ymwneud yn bennaf â gofod er mwyn galluogi athrawon ddarparu cyfleoedd addysgu a dysgu o safon sy'n hyrwyddo canlyniadau academaidd ac amcanion lles i bob disgybl yn y dosbarthiadau adnodd a thrwy Ysgol Sŵn y Don, a hynny heb gael ei rwystro gan heriau gofod a threfniadol.

5. Esbonio'r broses statudol

Ymgynghorwyd ymlaen llaw gyda'r corff llywodraethol a phennaeth Ysgol Sŵn y Don cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet yn gofyn am ganiatâd i ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol ynghylch y cais i adleoli un neu'r ddau ddsbarth adnodd dysgu.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cabinet ar 19 Rhagfyr 2017. Cefnogwyd yr argymhelliad i gynnal ymgynghoriad, gan ymgynghori ar ddewisiadau posibl a sicrhau bod diddordebau pawb yn cael eu hystyried a'u trin.

Bu ymgynghoriad ymlaen llaw pellach gyda phennaeth a chorff llywodraethol Ysgol Cystennin, ac maent yn cefnogi'r ymgynghoriad ynghylch y posibilrwydd o symud yr adnodd dysgu Cyfnod Allweddol 2 i'r ysgol. Hynny yw, maent yn cefnogi ymgynghoriad ffurfiol gyda'r ardal, y disgyblion sy'n eu gofal, eu rhieni a'r staff addysgu. I fod yn glir, nid oes penderfyniad wedi'i wneud yn bresennol ynghylch symud; cynnig i ymgynghori yn ei gylch ydyw ar y funud.

Dyma'r ddogfen ymgynghori sy'n manylu cefndir y cynnig i ystyried adleoli un neu'r ddau ddsbarth adnodd sydd wedi'u lleoli yn Ysgol Sŵn y Don. Bydd y ddogfen yn cael ei chyhoeddi ar 12 Mawrth 2018, a bydd ymatebion yn cael eu derbyn hyd 1.00 p.m. 23 Ebrill. Ar y cam hwn, ni fydd yr ymatebion hyn yn cael eu hystyried fel gwrthwynebiad, ond yn hytrach fel sylwadau. Os bydd rhywun yn dymuno

gwrthwynebu, bydd yn rhaid iddynt wneud hynny ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad statudol (pe bai un yn cael ei gyhoeddi). Yn ystod yr ymgynghoriad, fe all ymatebion gynnwys sylwadau neu gwestiynau ar unrhyw agwedd o'r cynnig a chynnig dewis amgen.

Ar ôl y cyfnod ymgynghori statudol, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn Ebrill 2018 pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch mynd ymlaen ag adleoli un neu'r ddau ddsbarth adnodd dysgu i ysgol gynradd amgen. Bydd yr adroddiad ymgynghori hwn yn crynhoi'r sylwadau a'r cwestiynau a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Bydd yr holl randdeiliaid a restrwyd uchod yn cael eu hysbysu bod yr adroddiad ymgynghori ar gael.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu mynd ymlaen â'r cynnig ar ôl yr adroddiad ymgynghori, bydd y dewis/cynnig a ffafir yn cael ei gyhoeddi ar ffurf hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd 'cyfnod gwrthwynebu' o 28 diwrnod o pan gyhoeddwyd y cynnig. Fe all unrhyw un wrthwynebu'r cynigion. Bydd yr hysbysiad yn cael ei roi ar wefan Cyngor Conwy ac ym mhrif dderbynfa'r ysgolion dan sylw. Bydd copïau hefyd yn cael eu hanfon i ysgolion i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr. Bydd copïau papur hefyd ar gael gan Wasanaethau Addysg Conwy.

Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiad statudol ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiad mewn 'adroddiad' gwrthwynebu. Fel uchod, bydd pob rhanddeiliaid yn cael ei hysbysu pan fydd yr adroddiad ar gael ac ym mhle.

Bydd Cabinet y Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch yr adroddiad gwrthwynebu o fewn 28 diwrnod o'r cyfnod gwrthwynebu'n dod i ben. Pan fo'r Cabinet wedi gwneud ei benderfyniad terfynol, bydd y penderfyniad yn cael ei roi mewn ysgrifen ynghyd â'i resymau dros y penderfyniad. Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar wefan y Cyngor gan hysbysu'r holl randdeiliaid.

Mewn rhai achosion, ar ôl penderfyniad terfynol y Cabinet, mae'n bosibl i'r cyrff canlynol gyfeirio'r mater at weinidogion Cymru i'w ystyried:

- awdurdod lleol arall a effeithiwyd gan y cynnig
- corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol a effeithiwyd
- corff llywodraethol ysgol wirfoddol neu sylfaen sy'n amodol i'r cynnig
- unrhyw ymddiriedolaeth sy'n dal tir ar ran ysgol wirfoddol neu sylfaen sy'n amodol i'r cynnig.

Bydd angen i'r cyrff sy'n cyfeirio'r mater nodi'r rheswm pam eu bod o'r farn bod y penderfyniad a wnaed gan yr Awdurdod Lleol yn anghywir. Bydd y Gweinidog yn penderfynu a yw'r cynigion yn effeithio'r cyrff ac a oes angen iddynt ystyried y cynigion.